# PWYLLGOR CYNLLUNIO

**(CYFARFOD AML-LEOLIAD - YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 1 A 2 - CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT A MICROSOFT TEAMS)**

**Aelodau'n bresennol:** **Dydd Mawrth, 9 Awst 2022**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Aelod C.James** |
| **Is-gadeirydd:** | **Aelod J.Jones** |
| **Cynghorydd**: | S.Paddison, D.Keogh, R.Davies, T.Bowen, C.Jordan, C.Phillips a/ac S.Thomas |
| **Aelod CDU/CDLl:** | Aelod W.F.Griffiths |
| **Aelodau Lleol:** | Aelod S.Rahaman, S.Freeguard a/ac S.Pursey |
| **Swyddogion yn bresennol:** | C.Morris, C.Davies, N.Lake, G.White a/ac C.Plowman |

---

1. **CROESO A GALW'R RHESTR**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 29 Mawrth 2022 a 19 Gorffennaf 2022 fel cofnod cywir.

4. **GWNEUD CAIS AM YMWELIAD (AU) SAFLE GAN Y CEISIADAU A GYFLWYNWYD**

Yn ystod y cyfarfod, gofynnwyd i ymweliad safle gael ei drefnu ag Eagle House.

**PENDERFYNWYD:** bod ymweliad safle ag Eagle House, 2 Heol Talbot, Port Talbot SA13 1DH yn cael ei drefnu.

5. **CAIS RHIF P2021/0856 - EAGLE HOUSE**

Darparodd swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (dymchwel y swyddfa ddeulawr bresennol, ac adeiladu 18 o fflatiau tai fforddiadwy ar y lloriau uchaf gydag unedau swyddfa/masnachol ar y llawr gwaelod a gwaith allanol cysylltiedig ac ardal barcio yn Eagle House, 2 Heol Talbot, Port Talbot SA13 1DH) fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd yr Aelodau Ward Lleol a'r Aelod Lleol dros Ddwyrain Sandfields yn bresennol i roi eu sylwadau.

**PENDERFYNWYD:** Gohirio cais rhif P2021/0856 hyd nes y bydd yr ymgeisydd yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth er mwyn rhoi cyfiawnhad manwl pellach ynghylch pam y mae'r datblygiad arfaethedig yn drech na phwysigrwydd treftadaeth y safle a cholli'r Adeilad o Bwysigrwydd Lleol, a bod adroddiad diwygiedig swyddog yn cael ei ddwyn yn ôl i'r Pwyllgor yn manylu ar ganlyniad yr Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth.

6. **PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG - 11 GORFFENNAF 2022 AC 1 AWST 2022**

Nododd yr Aelodau'r rhestr o Benderfyniadau Dirprwyedig o 11 Gorffennaf i 1 Awst 2022.

**PENDERFYNWYD:** Y dylid nodi'r adroddiad.

7. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**